NDA Monthly Update

January 2018

Summary

- Views invited on NDA Business Plan
- Wylfa 50% fuel removed
- Stakeholders share thoughts on NDA
- Nuclear skills matching service launched
- Waste silo gets ready for emptying
- NDA launches digital newsletter
- Demolition of Sellafield's tallest chimney
- Trapped fuel removed from Dounreay reactor
- Update on Magnox competition inquiry
- Specialist equipment dries out waste at Dungeness
- Busiest year yet at supply chain event
- Research competition shortlists innovative ideas

Diary Dates 2018

• Consultation on draft NDA Business Plan closes	4 February 2018
• National College for Nuclear opens in Cumbria	February 2018
• Department for International Trade Civil Nuclear Showcase 2018, London	27-28 February 2018
• NDA Business Plan published	End of March 2018

Views welcome on our latest Business Plan

The NDA is seeking views on its 2018-2021 Business Plan by 4 February. A consultation was launched in December on the annual plan, which details the NDA's decommissioning priorities for the next three years and also takes a longer-term highl-level overview of the 20-year programme. Feedback is sought from members of the public, nuclear regulators, employees at Site Licence Companies, trade unions, local authorities, Site Stakeholder Groups, Non-Governmental Organisations and any other organisation with an interest in the NDA's mission.

Weblink: Business Plan consultation

Wylfa is half-way there with fuel removal

Fuel removal at Wylfa on Anglesey has now reached the half-way stag. During its 45-year lifetime as a power station generating electricity for the UK, Wylfa's two reactors used almost 100,000 fuel elements. Since generating in 2015, the site's main focus has been to empty both reactors and send all the remaining used fuel to Sellafield for reprocessing. Completion of defuelling will mark the end of one of the UK's largest programmes of nuclear and hazard reduction work.

Weblink: Fuel removal at Wylfa

Do they think we're performing well?

The NDA has carried out an independent survey to establish how stakeholders view the organisation and its performance in cleaning up its 17 sites. Understanding people's views helps clarify areas of success and where improvements can be made. So this independent study gives us a clear benchmark to enable us to work better. The groups surveyed ranged from government ministers to local community leaders, national journalists, regulators and the workforce.

Weblink: How people view us

Skills matching service launched

A new online skills-matching service, the Nuclear Gateway, puts job candidates in direct contact with a pool of prospective employers. The platform, a collaboration between the National Skills Academy Nuclear (NSAN), the Nuclear Skills Strategy Group (NSSG) and the NDA, works both for companies and would-be employees. It enables employers to search a pool of potential recruits and those over-subscribed with applications to recommend candidates for other openings with different employers. For job-seekers, it provides openings with a range of prospective employers.

Weblink: Nuclear Gateway

Waste storage silo gets ready for emptying

Experts at Sellafield have cut the sixth and final hole in the Pile Fuel Cladding Silo (PFCS), a locked waste storage vault that was never designed to be opened. The holes will allow radioactive waste to be removed from one of the site's oldest and most hazardous buildings. Six giant steel doors now provide a safe barrier between the outside world and the waste inside the silo, until it starts to be removed over the coming years by a 'grabbing' machine.

Weblink: Last hole cut in Pile Fuel Cladding Silo

NDA launches new digital newsletter

The NDA has launched an online newsletter to keep stakeholders up to date with developments. The first edition of ***#Decomm*** was published in November and issued to all those who already subscribe to the NDA's e-bulletin. Anyone interested in receiving the newsletter can sign up via the website.

Weblink: Find out more about #Decomm

Sellafield's tallest chimney on its way down

A 60-year-old chimney on top of Sellafield's First Generation Reprocessing Plant is being painstakingly taken down by hand at a rate of one metre a week. At 61 metres high, sitting on top of the 61-metre building, it was the tallest structure on site until a moern replacement was built. Conventional demolition techniques like explosives and cranes cannot be used in such a crowded, hazardous environment, so a self-climbing platform has been designed and installed, where workers will remove each piece of concrete and steel by hand.

Weblink: Decommissioning reaches new heights

Free at last as jammed fuel is removed

Work is now under way to retrieve the remaining radioactive fuel elements that have been stuck for decades inside the Dounreay Fast Reactor. When the dome-shaped experimental reactor closed in 1977, most of the core fuel was removed. But follow-up work came to a halt when some of the metallic 'breeder' elements in the zone surrounding the core were found to be swollen and jammed. Almost 1,000 – around two-thirds of the total - were left in place. Now, after many years of work to design and test remotely operated equipment, the elements are being removed.

Weblink: Breeder fuel removal under way

Update on inquiry into Magnox competition

The National Audit Office has published a report on the NDA's award of the Magnox contract in 2014, while the Holliday inquiry has also published its interim findings on the

procurement process for management of the 12 sites. The full Holliday report is expected in the New Year. Meanwhile, the NDA is terminating, by mutual agreement, the Magnox PBO contract with the Cavendish Fluor Partnership (CFP) in 2019.

Weblink: The Holliday Inquiry

Drying system to tackle Dungeness waste

Specialist equipment is being installed at Dungeness A in to dry out radioactive waste, halving its volume and making it ready for long-term storage. As much as 99 per cent of moisture is removed from intermediate level waste (ILW) through the Advanced Vacuum Drying System (AVDS), reducing volume and cutting the cost of storing the material. AVDS was first used at the Berkeley site in 2013 to tackle radioactive sludge, resin and other waste generated while the site was producing electricity and in the early stages of decommissioning. It proved such a success that it was next dispatched to Bradwell where it was put to work helping to manage the site's radioactive waste inventory.

Weblink: Cutting-edge kit set for dry run

Busiest year ever at supply chain event

A record turn-out of 1,600 visitors ensured success for the NDA Estate Supply Chain Event 2017. The visitors, from all across the UK and overseas, enjoyed a day of exhibitions and networking at the annual event in Manchester, now in its seventh year. Organised jointly by the NDA and its business units with the aim of increasing visibility of opportunities for suppliers, a highlight of the day was the awards ceremony.

Weblink: Supply chain event success

Research competition shortlists innovative ideas

Fifteen ideas were shortlisted in a £multi-million competition to find new technologies for cleaning up Sellafield hazards. The shortlisted entries, many from companies new to nuclear, are drawing up feasibility studies and the most promising ideas will be selected to move onto the next stage. The competition, run by the NDA and the government's Innovate UK, awarded an initial £750,000 to 15 newly formed consortia to help them develop ideas on dismantling a large number of highly radioactive 'cells' at Sellafield's two reprocessing plants which are set to close by 2020. The remaining funds will support the next stage, when prototypes will be developed for testing.

Weblink: Innovation ideas shortlisted

Diweddariad Misol yr NDA

Ionawr 2018

Crynodeb

- Croesawu safbwyntiau ar Gynllun Busnes yr NDA
- 50% o danwydd Wylfa wedi ei dynnu oddi yno
- Rhanddeiliaid yn rhannu eu safbwyntiau ar yr NDA
- Lansio gwasanaeth paru sgiliau niwclear
- Paratoi i wagio seilo gwastraff
- Yr NDA yn lansio cylchlythyr digidol
- Chwalu simnai dalaf Sellafield
- Tynnu tanwydd o adweithydd yn Dounreay
- Y diweddaraf am yr ymchwiliad i gystadleuaeth Magnox
- Offer arbenigol yn sychu gwastraff yn Dungeness
- Y flwyddyn brysuraf eto yn ein digwyddiad cadwyn gyflenwi
- Syniadau arloesol yn cyrraedd rhestr fer y gystadleuaeth ymchwil

Dyddiadau ar gyfer y Dyddiadur yn 2018

- Ymgynghoriad ar Gynllun Busnes drafft yr NDA yn dod i ben 4 Chwefror 2018
- Coleg Cenedlaethol Niwclear yn agor yn Cumbria Chwefror 2018
- Digwyddiad Arddangos Niwclear Sifil yr Adran Masnach Ryngwladol 2018, Llundain 27-28 Chwefror 2018
- Cyhoeddi Cynllun Busnes yr NDA Diwedd Mawrth 2018

Croesawu safbwyntiau ar ein Cynllun Busnes diweddaraf

Mae'r NDA yn gwahodd sylwadau ar ei Gynllun Busnes ar gyfer 2018-2021 erbyn 4 Chwefror. Lansiwyd ymgynghoriad ar y cynllun blynyddol ym mis Rhagfyr, sy'n nodi blaenoriaethau datgomisiynu'r NDA ar gyfer y tair blynedd nesaf a hefyd yn rhoi trosolwg lefel uwch yn y tymor hirach ar y rhaglen 20 mlynedd. Gofynnir am adborth gan aelodau'r cyhoedd, rheoleiddwyr niwclear, gweithwyr Cwmnïau Trwydded Safle, undebau llafur, awdurdodau lleol, Grwpiau Rhanddeiliaid y Safle, Sefydliadau Anllywodraethol ac unrhyw sefydliad arall sydd â diddordeb yng ngwaith yr NDA.

Dolen: Ymgynghoriad ar y Cynllun Busnes

Wylfa hanner ffordd at gael gwared â'i danwydd

Mae'r broses o dynnu tanwydd o Wylfa yn Ynys Môn wedi cyrraedd y pwynt hanner ffordd erbyn hyn. Yn ystod ei hoes o 45 mlynedd fel gorsaf bŵer yn cynhyrchu trydan i'r Deyrnas Unedig, defnyddiodd dau adweithydd Wylfa bron i 100,000 o elfennau tanwydd. Ers i'r gwaith cynhyrchu trydan ddod i ben yn 2015, y prif fwriad ar y safle oedd gwagio'r ddau adweithydd ac anfon yr holl danwydd a ddefnyddiwyd a oedd yn weddill i Sellafield i'w ailbrosesu. Bydd cwblhau'r gwaith tynnu tanwydd yn nodi diwedd un o raglenni niwclear a lleihau peryglon mwyaf y Deyrnas Unedig.

Dolen: Cael gwared ar danwydd o Wylfa

Ydyn nhw'n meddwl ein bod ni'n perfformio'n dda?

Mae'r NDA wedi cynnal arolwg annibynnol i ganfod beth yw barn rhanddeiliaid am y sefydliad a'i berfformiad wrth lanhau ei 17 safle. Mae deall barn pobl yn helpu i egluro meysydd llwyddiant a lle gellir gwneud gwelliannau. Gan hynny, mae'r astudiaeth annibynnol hon yn rhoi meincnod clir i ni er mwyn ein galluogi i weithio'n well. Roedd y grwpiau a arolygwyd yn amrywio o weinidogion y llywodraeth i arweinwyr cymunedol lleol, newyddiadurwyr cenedlaethol, rheoleiddwyr a'r gweithlu.

Dolen: Sut mae pobl yn ein gweld ni

Lansio gwasanaeth paru sgiliau

Mae gwasanaeth paru sgiliau newydd ar-lein, y Porth Niwclear, yn ffordd i ymgeiswyr am swyddi ddod i gysylltiad uniongyrchol â chronfa o ddarpar gyflogwyr. Mae'r llwyfan, sy'n gydweithrediad rhwng yr Academi Sgiliau Cenedlaethol Niwclear (NSAN), y Grŵp Strategaeth Sgiliau Niwclear (NSSG) a'r NDA, yn gweithio i gwmnïau a darpar weithwyr cyflog. Mae'n galluogi cyflogwyr i chwilio drwy gronfa o recriwtiaid posibl, a'r rhai sydd wedi eu gorlethu â cheisiadau i argymell agoriadau eraill gyda gwahanol gyflogwyr i ymgeiswyr. Yn achos y rhai sy'n chwilio am waith, mae'n agor drysau i amrywiaeth o ddarpar gyflogwyr.

Dolen: Nuclear Gateway

Paratoi i wagio seilo storio gwastraff

Mae arbenigwyr yn Sellafield wedi torri'r chweched twll, sef y twll olaf, yn y Seilo Cladin Tanwydd Pentwr (PFCS), storfa wastraff wedi ei chloi na ddyluniwyd i gael ei hagor ar unrhyw adeg. Bydd y tyllau yn fodd i symud gwastraff ymbelydrol o un o adeiladau hynaf a mwyaf peryglus y safle. Mae chwe drws dur mawr yn awr yn darparu rhwystr diogel rhwng y byd y tu allan a'r gwastraff y tu mewn i'r seilo, nes bydd y gwaith o gael gwared â'r gwastraff yn dechrau drwy ddefnyddio peiriant 'gafael' dros y blynyddoedd a ddaw.

Dolen: Torri'r twll olaf yn y Seilo Cladin Tanwydd Pentwr

NDA yn lansio cylchlythyr digidol newydd

Mae'r NDA wedi lansio cylchlythyr ar-lein i roi gwybod i randdeiliaid am y datblygiadau diweddaraf. Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o ***#Decomm*** ym mis Tachwedd a'i ddosbarthu i bawb sydd eisoes yn tanysgrifio i e-fwletin yr NDA. Gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn cael y cylchlythyr gofrestru drwy'r wefan.

Dolen: Dysgu mwy am #Decomm

Simnai dalaf Sellafield ar ei ffordd i lawr

Mae hen simnai 60 oed ar ben Canolfan Ailbrosesu Cenhedlaeth Gyntaf Sellafield yn cael ei datgymalu'n ofalus iawn â llaw fesul un metr yr wythnos. A hithau'n sefyll 61 metr o uchder ac wedi'i gosod ar do'r adeilad 61 metr, y simnai hon oedd yr adeilad uchaf ar y safle cyn codi'r adeilad modern a ddaeth yn ei le. Nid yw'n bosib defnyddio technegau chwalu confensiynol fel ffrwydron a chraeniau mewn amgylchedd mor brysur a pheryglus, felly maen nhw wedi cynllunio a gosod llwyfan y gellir ei godi i fyny'r adeilad yn awtomatig er mwyn i weithwyr allu tynnu pob darn o goncrid a dur â llaw.

Dolen: Datgomisiynu yn codi i'r entrychion

Rhydd o'r diwedd ar ôl llwyddo i gael gwared â hen danwydd

Mae gwaith yn mynd rhagddo i gael gwared ar weddillion elfennau tanwydd ymbelydrol sydd wedi bod yn sownd yn Adweithydd Cyntaf Dounreay ers degawdau. Pan gaewyd yr adweithydd arbrofol yn 1977, llwyddwyd i gael gwared â'r rhan fwyaf o'r tanwydd craidd. Ond daeth gwaith dilynol i stop pan ganfuwyd bod rhai o'r elfennau metalig 'bridiol' yn y rhan o amgylch cnewyllyn yr adeweithydd wedi chwyddo a mynd yn sownd. Roedd bron i 1,000 - tua dwy ran o dair o'r cyfan - wedi'u gadael yn eu lle. Nawr, wedi blynyddoedd o waith yn dylunio a phrofi offer y gellir ei reoli o bell, mae'r elfennau hynny'n cael eu tynnu oddi yno.

Dolen: Gwaith gwaredu tanwydd bridiol yn mynd rhagddo

Y diweddaraf am yr ymchwiliad i gystadleuaeth Magnox

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cyhoeddi adroddiad ar yr NDA yng nghyswllt dyfarnu contract Magnox yn 2014, ac mae ymchwiliad Holliday hefyd wedi cyhoeddi ei ganfyddiadau interim yng nghyswllt y broses gaffael ar gyfer rheoli'r 12 safle. Disgwylir adroddiad llawn Holliday yn y Flwyddyn Newydd. Yn y cyfamser, mae'r NDA, drwy gytundeb o'r ddwy ochr, yn terfynu contract Sefydliad Corff Rhiant Magnox, sef Partneriaeth Cavendish Fluor (CFP) yn 2019.

Dolen: Ymchwiliad Holliday

Sychu'r system er mwyn mynd i'r afael â gwastraff yn Dungeness

Mae offer arbenigol yn cael ei osod yn Dungeness A i sychu gwastraff ymbelydrol, gan haneru ei gyfaint a'i wneud yn barod ar gyfer ei storio yn yr hirdymor. Mae hyd at 99 y cant o'r lleithedd yn cael ei dynnu o wastraff lefel ganolraddol drwy'r Uwch System Sychu drwy Wactod (AVDS), gan leihau ei gyfaint a lleihau'r gost o storio'r deunydd. Defnyddiwyd AVDS am y tro cyntaf yn safle Berkeley yn 2013 i daclo llaid ymbelydrol, resin a gwastraff arall a grëwyd pan oedd y safle'n cynhyrchu trydan ac yn ystod camau cyntaf y broses ddatgomisiynu. Bu'n gymaint o lwyddiant nes iddi wedyn gael ei throsglwyddo i Bradwell lle y cafodd ei defnyddio i helpu gyda'r gwaith o reoli stocrestr gwastraff ymbelydrol y safle.

Dolen: Offer arloesol yn barod i'w roi ar waith

Y flwyddyn brysuraf eto yn ein digwyddiad cadwyn gyflenwi

Diolch i'r 1,600 o ymwelwyr - y nifer fwyaf eto - a ddaeth i Ddigwyddiad Cadwyn Gyflenwi Ystad yr NDA yn 2017. Bu'r digwyddiad yn llwyddiant mawr. Daeth ymwelwyr o bob rhan o'r Deyrnas Unedig ac o dramor i fwynhau diwrnod o arddangosfeydd a rhwydweithio yn y digwyddiad blynyddol yn Manceinion, oedd yn cael ei gynnal am y seithfed tro eleni. Un o uchafbwyntiau'r diwrnod oedd y seremoni wobrwyo a drefnwyd ar y cyd gan yr NDA a'i unedau busnes, gyda'r nod o amlygu'r cyfleoedd sydd ar gael i gyflenwyr.

Dolen: Llwyddiant y digwyddiad cadwyn gyflenwi

Syniadau arloesol yn cyrraedd rhestr fer y gystadleuaeth ymchwil

Cyrhaeddodd pymtheg o syniadau y rhestr fer mewn cystadleuaeth gwerth miliynau o bunnau a gynhaliwyd i ddod o hyd i dechnolegau newydd y gellir eu defnyddio i glirio peryglon yn Sellafield. Mae'r ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr fer - llawer ohonynt yn gwmnïau sy'n newydd i'r maes niwclear - yn llunio astudiaethau dichonoldeb a bydd y syniadau mwyaf addawol yn cael eu dewis i symud ymlaen i'r cam nesaf. Mae'r gystadleuaeth, a gynhelir gan yr NDA ac Innovate UK, wedi dyfarnu swm dechreuol o £750,000 i 15 o gonsortia newydd i'w helpu i ddatblygu syniadau ar gyfer datgymalu nifer fawr o 'gelloedd' ymbelydrol iawn yn y ddau safle ailbrosesu yn Sellafield sydd i fod

i gau erbyn 2020. Bydd yr arian sydd ar ôl yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cam nesaf, sef llunio prototeipiau i'w rhoi ar brawf.

Dolen: Syniadau arloesol ar y rhestr fer